YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR


CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor y Gwanwyn 2024

## Dosbarth y Bilidowcar

# Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw datblygu dysgwyr sy'n wybodus am eu diwylliant, eu hardal leol a'u gwlad yn awr ac yn y gorffennol. Gobeithiwn ysgogi'r disgyblion i ymholi a darganfod, a datblygu chwilfrydedd am eu hunaniaeth ac am dreftadaeth Cymru. Wrth brofi rhyfeddodau Cymru, hyderwn y bydd hyn yn gymorth i ennyn ymdeimlad o le ac o berthyn. Gobeithiwn hefyd ddatblygu chwilfrydedd am wyddoniaeth a thechnoleg coginio a fydd yn eu hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'n cwmpas er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y disgyblion yn ymfalchïo yn eu diwylliant ac yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.




Beth oedd Cymru fel amser maith yn ol? *James*

Dysgu am hanes Cymru- *Heulwen*

Hoffwn edrych ar fanner Cymru. *Louis a Ffion.T*

Trafod ein cartrefi- *pawb*

Hoffwn i ddysgu am draddodiadau Cymru. *Mabyn*

Hoffwn i greu rhywbeth! *Ffion.B*

Hoffwn i fynd ar drip! *Leeco*

# 'Does unman yn debyg i adre

# Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor:

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!
www.yggbrynymor.co.uk
Dilynwch ni ar 'X' hefyd!
@YGGBrynymor1

**Iechyd a Lles**

- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer ein sgiliau llawdriniol manwl
- Parhau i ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a gwneud dewisiadau doeth.
- Trafod ein cartrefi a deall bod gwahaniaethau a tebygrwydd rhwng cartrefi ein gilydd.
- Deall pwysigrwydd hylendid personol wrth goginio.
- Datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn i Gymru.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mwynhau canu ystod o ganeuon yn ymwneud â'r uned ddysgu.
- Archwilio ac arbrofi â'r dechneg o 'wehyddu' wrth astudio brethyn Cymreig.
- Dysgu a mwynhau perfformio dawnsfeydd tra ddodiadol o Gymru.

**Y Dyniaethau**

- Datblygu gwybodaeth ynglyn â Chymru.
- Dod i adnabod rhai o fannau ac adeiladau arwyddocaol Cymru a'u lleoli ar fapiau.
- Gwrando ar straeon ac hanesion am ddigwyddiadau yn hanes Cymru.
- Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng heddiw a'r gorffennol.
- Archwilio hanes llestri Abertawe.
- Gwerthfawrogi ein cartrefi a'n teuluoedd a'r ymdeimlad o berthyn.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Datblygu dealltwriaeth o sut y mae rhai deunyddiau cyffredin yn newid wrth gael eu oeri, eu cynhesu neu eu cymysgu gyda deunyddiau eraill.
- Mwynhau coginio ryseitiau syml er mwyn gweld y broses o newid deunyddiau.
- Defnyddio offer cyfrifiadurol at wahanol ddibenion e.e casglu a trin data, creu cyflwyniadau.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Caffi'r Ddraig Goch' a mwynhau coginio, gweini bwyd, trafod arian abod yn gwsmeriaid a cogyddion.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon, chwedlau a llyfrau ffeithiol a datblygu ymdeimlad o empathi trwy straeon.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn amrywiol ddulliau, gan gynnwys ysgrifennu cyfarwyddiadau a llythyr.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener yn cael ei rannu trwy'r cyfrif Hwb ar J2pdf. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y Dydd Gwener canlynol.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu, cyfri mewn camau, lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian ac ymarfer rhoi newid.
- Datblygu ein sgiliau darllen y cloc.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen a mwynhau datrys problemau.

**Ymweliadau/Profiadau**

Ymweliad ag Amgueddfa San Ffagan.

Ymweliad gan gwmni cyflenwi bwyd i drafod bwydydd Cymreig.

**Y Cywaith Cloi**

Cynllunio a threfnu te parti Cymreig